Estyn
Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar fesurau arbennig

**Ysgol Maesydre**
**Severn Road**
**Y Trallwng**
**Powys**
**SY21 7SU**

**Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Richard Lloyd | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Maesydre wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mai 2011.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oes angen unrhyw weithgarwch dilynol pellach ar yr ysgol.

Ers penodi'r pennaeth newydd yn Ebrill 2012, bu gwelliant sylweddol yn yr ysgol. Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth effeithiol yr uwch dîm rheoli newydd, wedi llwyddo i ddwyn ynghyd yr holl staff a llywodraethwyr i weithio fel tîm. Mewn cyfnod byr, mae'r dull ysgol gyfan hwn wedi cael dylanwad amlwg ar safonau a lles disgyblion ar draws yr ysgol.

Gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â bron bob un o'r blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r gwelliannau wedi cael digon o amser eto i effeithio'n llawn ar waith yr ysgol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella safonau mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg ail iaith, gosod targedau heriol ar gyfer gwella a sicrhau bod datblygiad staff yn canolbwyntio'n agos ar godi safonau yn y pynciau hyn

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae data dros dro 2012 ar gyfer diwedd cyfnod allweddol 2 yn dangos gwelliant mewn safonau ar lefel 4 ym mhob pwnc. Fodd bynnag, disgwylir y bydd perfformiad disgyblion yn parhau islaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob pwnc ar gyfer 2012. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn cyflawni'n dda mewn ysgrifennu. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu ar draws yr ysgol yn parhau'n anghyson. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael eu hymestyn ddigon mewn ychydig ddosbarthiadau ac felly nid ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn dda yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae safon gwaith disgyblion mewn mathemateg yn dda yn gyffredinol. Er bod gan ddisgyblion amgyffrediad sicr o fedrau rhifedd, nid ydynt yn cymhwyso'r medrau hyn i sefyllfaoedd bob dydd. Mewn gwyddoniaeth, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n dda. Mae gan y Gymraeg broffil uwch ar draws yr ysgol erbyn hyn. Mae agwedd gadarnhaol gan y rhan fwyaf o ddisgyblion at ddatblygu eu medrau siarad a gwrando Cymraeg yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae disgyblion sy'n dilyn Cymraeg iaith gyntaf yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, mae cynnydd disgyblion mewn Cymraeg ail iaith yn gyfyngedig. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb i gyfarwyddiadau syml yn y Gymraeg ond nid ydynt yn deall ystyr testunau syml. Mae medrau ysgrifennu wedi'u tanddatblygu. Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant a chymorth helaeth fel unigolion ac fel timau wrth gyflwyno'r pynciau craidd a phedagogeg. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar safonau medrau llythrennedd a rhifedd llawer o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw targedau'r ysgol ar gyfer asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yn ddigon uchelgeisiol i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni eu potensial llawn.

**Argymhelliad 2: Gwella arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu ar bob lefel**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i'r ysgol ac mae'n ei chyfleu'n llwyddiannus i staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Mae'n cynnig cyfeiriad strategol clir i fywyd a gwaith yr ysgol ac mewn cyfnod byr, mae hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r holl staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm ac maent yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r cynllun gweithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar godi safonau a symud yr ysgol yn ei blaen. Mae'r llywodraethwyr wedi bod â chysylltiad agos â rhoi cynllun gweithredu ôl-arolygiad yr ysgol ar waith ac maent yn adolygu ei gynnydd yn rheolaidd yn eu cyfarfodydd. Gwnaed cynnydd priodol hyd yn hyn yn rhoi'r cynllun gweithredu ar waith ac mae llawer o'r camau a gymerwyd hyd yn hyn wedi llwyddo i sicrhau gwelliant yn yr holl bynciau craidd. Mae gweithdrefnau yn eu lle i ailstrwythuro'r staff gyda golwg ar lunio uwch dîm rheoli newydd a fydd ar waith yn llawn erbyn Medi 2012. Dros dro, mae grŵp o uwch aelodau staff yn cefnogi'r pennaeth. Fodd bynnag, nid yw cyfrifoldebau arwain wedi'u dosbarthu'n ddigonol eto.

**Argymhelliad 3: Gwella ymddygiad lleiafrif bach o ddisgyblion a sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol o ran dulliau o ymdrin â chamymddwyn**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Yn y gwersi a arsylwyd, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n dda a chadwont eu sylw wrth y dasg am gyfnodau estynedig. Mae ymddygiad yn dda ac mae disgyblion yn cyfrannu'n dda yn ystod trafodaethau dosbarth ac yn eu gweithgareddau grŵp. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da yn rhoi ei pholisi ymddygiad cadarnhaol ar waith. Caiff strategaethau effeithiol eu defnyddio i ymateb yn briodol i'r nifer bach o ddisgyblion hŷn â phroblemau ymddygiad. Nodwyd anghenion y disgyblion hyn a lluniwyd cynlluniau cymorth pwrpasol ar eu cyfer. Mae dulliau addysgu yn ymgorffori cydbwysedd da rhwng defnyddio ymatebion cadarnhaol a chosbau priodol. Caiff adnoddau eu targedu'n llwyddiannus lle bo'r angen, a chaiff disgyblion gymorth da gan gynorthwywyr medrus yn yr ystafelloedd dosbarth. Mae staff wedi cael hyfforddiant priodol ar reoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth ac yn ystod amserau egwyl.

**Argymhelliad 4: Gwella cysondeb asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu, ac olrhain disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi diwygio ei gweithdrefnau asesu a chofnodi er mwyn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd. Mae'n dechrau gwneud defnydd priodol o ddata am berfformiad i nodi anghenion disgyblion, olrhain cynnydd disgyblion a llywio cynllunio. Hefyd, mae'r ysgol wedi rhoi prosesau safoni a chymedroli effeithiol ar waith yn fewnol, gyda'r ysgol uwchradd y mae'r disgyblion yn trosglwyddo iddi ar ddiwedd Blwyddyn 6, a hefyd gyda grŵp o ysgolion babanod cyflenwi. O ganlyniad, mae'r holl staff yn gwybod sut i gymhwyso lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn gallu asesu disgyblion yn gywir. Caiff asesu ar gyfer dysgu ei ddefnyddio i raddau

amrywiol ym mron bob un o’r dosbarthiadau. Nid yw wedi’i ymgorffori’n drylwyr ar draws yr ysgol eto ac felly nid yw’n cael effaith effeithiol ar ddatblygiad disgyblion fel dysgwyr annibynnol. Caiff amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant eu rhannu gyda disgyblion ac mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, caiff disgyblion gyfleoedd i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cymheiriaid. Nid yw adborth llafar ac ysgrifenedig i ddisgyblion yn canolbwyntio’n rheolaidd ar feini prawf llwyddiant penodol, ac yn gyffredinol, nid yw sylwadau ysgrifenedig yn rhoi gwybod i ddisgyblion beth yn union y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae ailddrafftio gwaith i wella safon gwaith disgyblion wedi’i danddatblygu. Caiff targedau personol eu gosod ar gyfer pob disgybl ond nid yw’r rhain yn ddigon penodol nac yn canolbwyntio ar godi safonau ac ni chânt eu hadolygu’n ddigon rheolaidd.

**Argymhelliad 5: Gwella hunanarfarnu**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae’r holl staff a llywodraethwyr bellach yn gallu nodi cryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w datblygu yn gywir. Mae’r ysgol yn gwneud cynnydd wrth ddatblygu proses hunanarfarnu briodol, yn cynnwys casglu tystiolaeth uniongyrchol. Mae’r ysgol yn ystyried arsylwadau ystafell ddosbarth, craffu ar waith disgyblion a dadansoddiadau data yn dda. Mae’n ystyried barn rhieni a disgyblion hefyd. Fodd bynnag, nid oes bob amser gofnod ffurfiol o’r dystiolaeth a gasglwyd. Nid yw’r ysgol wedi llunio adroddiad hunanarfarnu eto. Bydd uwch dîm rheoli newydd ar waith y tymor nesaf ac mae cynlluniau cadarn ar gyfer datblygu hunanarfarnu ymhellach yn yr ysgol.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod y corff llywodraethol yn cael gwybod yn well am berfformiad yr ysgol**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae tri aelod profiadol ychwanegol wedi’u cyfethol yn ddiweddar i’r corff llywodraethol. Mae hyn wedi cyfrannu’n llwyddiannus at ddatblygu rôl y corff llywodraethol yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn gadarnach. Mae’r corff llywodraethol yn chwarae rhan lawn mewn monitro cynnydd yr ysgol wrth roi’r cynllun gweithredu ôl-arolygiad ar waith. Mae llywodraethwyr yn cael adroddiadau manwl yn rheolaidd gan y pennaeth ar y cynnydd sy’n cael ei wneud yn gweithredu’r cynllun ac ar ddata perfformiad yr ysgol. Felly, mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o gynnydd presennol yr ysgol yn mynd i’r afael â’r argymhellion arolygu ac maent yn herio ac yn cwestiynu perfformiad yr ysgol yn drylwyr. Caiff llywodraethwyr eu hannog i ymweld â’r ysgol yn rheolaidd i arsylwi fel rhan o’u gweithdrefnau monitro.

**Argymhelliad 7: Sicrhau bod cymorth yn cael ei dargedu’n briodol i bob plentyn sydd ag ADY a SIY a bod eu cynnydd yn cael ei fonitro’n ffurfiol yn gyson ar draws yr ysgol**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae strategaethau priodol ar waith i dargedu a chefnogi unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac i olrhain eu cynnydd. Fodd bynnag, nid yw cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd

yn cael ei fonitro'n ffurfiol ar hyn o bryd. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi penodi cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol hyd nes bod y gwaith o aildrefnu staff yn digwydd. Hefyd, mae cynlluniau ar waith i adolygu dosbarthiad y cynorthwywyr cymorth dysgu i dargedu anghenion grwpiau gwahanol o ddisgyblion yn fwy effeithiol. Caiff disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol eu cefnogi'n dda gan gynorthwyydd cymorth dysgu ac maent yn gwneud cynnydd da. Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn cynnig her briodol i ddisgyblion mwy abl.

**Argymhellion**

Dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at fodloni'r argymhellion arolygu na aethpwyd i'r afael yn llawn â nhw eto.